CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

ynysmon.llyw.cymru

anglesey.gov.wales

# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026

# 7fed Adroddiad Monitro Blynyddol (Adroddiad Ynys Môn)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd
This document is also available in English.

Cyngor Sir Ynys Môn

cyngorynysmôn

cyngorynysmôn

cyngorynysmôn

## Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ 4
- Casgliadau Allweddol yr AMB ........ 6
- Adolygu'r Cynllun ........ 7
- Monitro'r Asesiad Cynaliadwyedd (AC) ........ 7

Cyflwyniad ........ 8
- Dangosyddion ........ 8
- Camau gweithredu ........ 9

Dadansoddi Newidiadau Cyd-Destunol ........ 11
- Y Cyd-destun Cenedlaethol ........ 11
  - Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 (Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol) ........ 11


Polisi Cynllunio Cymru ........ 11
- Y Cyd-destun Rhanbarthol ........ 12
  - Cynlluniau Datblygu Strategol ........ 12
  - Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ........ 12
- Y Cyd-destun Lleol ........ 12
  - Porthladd Rhydd Ynys Môn ........ 12

Dadansoddiad o Ddangosyddion ........ 14
- Cymunedau Diogel, Iach, Unigryw a Bywiog ........ 14
  - Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant ........ 14
- Seilwaith a Chyfraniadau Datblygwyr ........ 23
  - Mannau Agored ........ 23
  - Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygu a Hygyrchedd ........ 25
- Byw'n Gynaliadwy ........ 29
  - Datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd ........ 29
- Technoleg Ynni Adnewyddadwy ........ 34
- Economi ac Adfywio. ........ 43
  - Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a Datblygiadau Cysylltiedig ........ 43
  - Wylfa Newydd ........ 43
- Darparu Cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus ........ 48
  - Gweledigaeth economaidd ........ 48
  - Datblygiadau Canol Tref ac Adwerthu ........ 54
  - Yr Economi Ymwelwyr ........ 57
  - Cynlluniau Rheoli Cyrchfan ........ 57
  - Cyflenwad ac Ansawdd Tai ........ 60
  - Lleoliad Tai ........ 60

Llety i Sipsiwn a Theithwyr ..... 81
Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig ..... 86
Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ..... 86
Gwarchod a gwella asedau treftadaeth ..... 88
Rheoli Gwastraff ..... 90
Casgliadau ac Argymhellion ..... 95
Atodiad 1 - Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ..... 97
Crynodeb o Fonitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ..... 98
Crynodeb o'r Canlyniadau ..... 98

# Crynodeb Gweithredol

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl ar y Cyd) ar 31 Gorffennaf 2017. Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn cynnwys Ynys Môn ac ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Nid yw'n cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.




Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses o lunio cynllun. Monitro yw'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a'r gwaith llunio polisïau, gweithredu polisïau, gwerthuso ac adolygu'r cynllun. Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLl ar y Cyd. Mae'n cynnwys cyfanswm o 70 o ddangosyddion a ddefnyddir i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau. Mae hefyd yn cynnwys cyfres o dargedau ac yn diffinio trothwyon sy'n sbarduno gweithredu pellach, pan fo angen. Datblygwyd y Fframwaith Monitro yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru, ac fe'i hystyriwyd yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus ar gyfer y CDLl ar y Cyd.

Fel rhan o broses statudol y Cynllun Datblygu, rhaid i Gynghorau baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Yn 2023, daeth Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd â'u cytundeb cydweithio ar faterion polisi cynllunio i ben. O ganlyniad, bydd yr AMR hwn yn canolbwyntio ar ddangosyddion sy'n berthnasol i Ynys Môn yn unig. Dyma'r seithfed AMB i'w baratoi ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd. Mae'r AMB hwn yn edrych ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31

Mawrth 2025. Mae'n ofynnol cyflwyno'r Adroddiad i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau erbyn 31 Hydref 2025. Yn 2023, daeth Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd â'u cytundeb cydweithio ar faterion polisi cynllunio i ben. O ganlyniad, bydd yr AMR hwn yn canolbwyntio ar ddangosyddion sy'n berthnasol i Ynys Môn yn unig.

Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, dangosir dangosyddion allweddol a chanlyniadau yn y tabl isod.

| Disgrifiad | Nifer y Dangosyddion |
|---|---|
| Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. | 31 |
| Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. | 21 |
| Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. | 6 |

Ceir crynodeb byr o'r canlyniad o asesu'r dangosyddion yn y tabl canlynol:

| Asesiad | Cam gweithredu | Nifer y dangosyddion yn y categori |
|---|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Dim angen cymryd camau pellach heblaw am barhau i fonitro | 31 |
| Asesiad o'r penderfyniad ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad | Efallai bod angen hyfforddiant ychwanegol ar swyddog a / neu Aelod. | 0 |
| Mae'r asesiad yn awgrymu bod angen rhagor o arweiniad ar gyfer y rheini a nodir yn y Cynllun i egluro sut dylid gweithredu polisi'n gywir, neu i hwyluso'r gwaith o ddatblygu safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, pan fo'n berthnasol. | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Mae angen ymchwil ac ymchwiliad pellach, sy'n cynnwys archwilio gwybodaeth gyd-destunol am ardal y Cynllun neu'r maes pwnc. | 27 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r polisi yn cael ei weithredu | Arolygu'r polisi yn unol â hynny | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei gweithredu | Arolygu'r Cynllun | 0 |
| Cyflawnwyd y targed / neu'r data ddim yn berthnasol i Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn | Dim angen gweithredu pellach | 11 |

Fel y gwelir uchod, nid oes angen gweithredu ymhellach ar y rhan fwyaf o ddangosyddion, gyda disgwyliad i barhau i fonitro. Mae rhai dangosyddion wedi'u lliwio'n llwyd gan eu bod wedi'u cyflawni ac felly nid oes angen cymryd camau pellach ac felly nid ydynt wedi'u nodi uchod.

Wrth asesu perfformiad y CDLl ar y Cyd, yn ogystal ag ystyried y dangosyddion, mae rhaid i'r AMB ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn flaenorol. Rhaid hefyd ystyried effaith ganlyniadol y newidiadau hyn ar y CDLl ar y Cyd.

## Casgliadau Allweddol yr AMB

- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 88 uned breswyl newydd yn ystod 2024/25;
- 249 uned wedi'u cwblhau yn 2024/25 (sy'n fwy na'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog dangosol o 232 uned ar gyfer Ynys Môn.
- Cwblhawyd 104 o unedau tai fforddiadwy yn 2024-25, sef 41.76% o gyfanswm yr unedau a gwblhawyd ar gyfer y flwyddyn.
- Mae 2,697 o unedau wedi cael eu cwblhau yn Ynys Môn rhwng y dyddiad sylfaenol (2011/12) a 2024/25, ac roedd y taflwybr yn rhagweld ffigur o 3,231 o unedau.
- Mae 63% o'r unedau tai a ganiatawyd yn ystod cyfnod yr AMB mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol. Mae 16% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 19% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored.
- Caniatawyd 1 safle eithriedig ar gyfer tai fforddiadwy (ystadau cyfan) yn ystod cyfnod yr AMB, caniatawyd 1 annedd menter wledig a chaniatawyd 0 annedd fforddiadwy yng nghefn gwlad agored (cytundeb adran 106). Caniatawyd 1 datblygiad galluogi adeilad allanol rhestredig Gradd II hefyd.
- Mae 44% o'r unedau a gafodd ganiatâd ac a gafodd eu cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun yn unedau fforddiadwy (496 o unedau fforddiadwy allan o gyfanswm o 1134 o unedau).
- Un o amcanion strategol y CDLlC yw hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig, mae'r amcan hwnnw wedi bod yn llwyddiannus yn ystod cyfnod yr AMB, gyda chaniatâd wedi'i roi ar gyfer amrywiaeth o ddibenion cyflogaeth fel safleoedd twristiaeth carafannau a gwersylla, unedau busnes newydd, unedau gofal plant, stiwdios harddwch yn y cartref, Stiwdios Artistiaid, busnes trin cŵn, Clinig Llygaid, Stiwdio Tatŵs, Unedau adwerthu, Lleoliad Priodasau, llety gofal preswyl newydd, Datblygiadau Amaethyddol.
- O ran apeliadau cynllunio, cafodd 13 o 19 apêl i PCAC eu gwrthod yn ystod y cyfnod AMB hwn gyda'r gweddill yn cael eu caniatáu. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd gwrthod apêl o 68.4%.
- Mae dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyflawni'r adnoddau ynni adnewyddadwy posibl a nodir yn y Cynllun. Roedd disgwyl y byddai 50% o hyn, 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65Wh ar gyfer gwres, wedi cael ei gyflawni erbyn 2021. Fodd bynnag hyd at 2024 dim ond 92.6 GWh yn ychwanegol i'r ffigyrau yn nhablau 7 ac 8 yn y CDLl ar y cyd sydd wedi cael ei ddarparu. Felly, nid yw'r targed o 50% o botensial ynni adnewyddadwy ar gyfer gwres a thrydan yn cael ei ddarparu erbyn 2024 wedi cael ei gyflawni. Mae gan y cynlluniau a ganiatawyd botensial ar gyfer cynhyrchu ynni i gyrraedd y targed yn y Cynllun. Fodd bynnag, mae rhai o'r cynigion wedi cael caniatâd ers peth amser. Mae'n amlwg felly bod y methiant i gyrraedd y targed o fewn y Cynllun yn ymwneud â gweithredu cynlluniau yn hytrach na methiant Polisïau Ynni Adnewyddadwy'r Cynllun.

## Adolygu’r Cynllun

Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, rhaid adolygu CDLlau bob pedair blynedd a pharatoi Cynllun Diwygiedig.  Cafodd y cynllun presennol ei fabwysiadu ar 31 Gorffennaf 2017 ac felly cafodd Adroddiad Adolygu ei baratoi. Casgliad Adroddiad yr Adolygiad oedd cynnal Adolygiad Llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n gyfystyr â pharatoi Cynllun newydd. Dilynwyd hyn gan benderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i ddod â'r trefniant cydweithio rhwng y ddau Gyngor i ben a pharatoi Cynlluniau Datblygu ar wahân. Daeth y trefniant cydweithio i ben ar 31 Mawrth 2023 a sefydlwyd timau polisi newydd ar gyfer y ddau Gyngor. Bydd casgliadau pob AMB yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a fydd yn cyfrannu at baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn.

## Monitro’r Asesiad Cynaliadwyedd (AC)

Mae Atodiad 1 yn darparu asesiad manwl o berfformiad y CDLl yn erbyn amcanion monitro'r AC. Nodwyd dangosyddion manwl i ddarparu tystiolaeth fwy penodol ar gyfer perfformiad y CDLl yn erbyn yr Amcanion AC a amlinellwyd yn y CDLl.

# Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLIC) a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017 yn darparu fframwaith defnydd tir a fydd yn sail i benderfyniadau ynghylch datblygu yn ardal y Cynllun yn ystod oes y CDLIC (hyd at 2026). Nid yw ardal y Cynllun yn cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.

Mae is-adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau lunio Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer eu Cynlluniau Datblygu Lleol ar ôl eu mabwysiadu a chadw llygad rheolaidd ar bob mater y disgwylir iddo effeithio ar ddatblygiad ardal y Cynllun Datblygu Lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar beth ddylid ei gynnwys mewn AMB.

## Dangosyddion

Disgwylir yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 3) bod pob fframwaith monitro yn cynnwys dangosyddion allweddol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:-

| Dangosydd craidd | Cyfeiriad yn y fframwaith monitro |
|---|---|
| Dosbarthiad gofodol datblygiad tai | D25 |
| Lefel flynyddol y tai a gwblhawyd yn cael ei monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir (AABR). | D47 |
| Cyfanswm cwblhau cronnus wedi eu monitro yn erbyn y gyfradd gwblhau gronnus a ragwelir. | D44 |
| Nifer y tai fforddiadwy a adeiladwyd o'i gymharu â'r targed yn y Cynllun. | D47 |
| Y math o dai fforddiadwy a adeiladwyd (deiliadaeth) | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau. | D32 & D33 |
| Hyfywedd y farchnad ar gyfer datblygiadau tai | D50 |
| Cyfradd datblygu tai ar ddyraniadau. | D45 & D46 |
| Datblygu prosiectau seilwaith allweddol. | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi eu datblygu. | D56, D57 & D58 |
| Graddfa / math o ddatblygiad agored iawn i niwed a ganiatawyd mewn ardaloedd C2 sydd mewn perygl o lifogydd. | D18 |

Mae'r Fframwaith Monitro hefyd yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion lleol a chyd-destunol a nodwyd gan y Cyngor sy'n ymwneud â chyd-destun ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a materion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach yn eu tro.

Mae angen monitro pob un o'r dangosyddion hyn, a bydd natur y data a gesglir yn amrywio o un i'r llall. Mae rhai yn ffeithiol (e.e. a oes datblygiad neu CCA wedi'u cyflawni o fewn yr amserlen arfaethedig?), tra bo eraill yn galw am gasglu data a monitro dros gyfnod hwy (e.e. ffigurau cwblhau tai).

## Camau gweithredu

Mae'r Fframwaith Monitro yn nodi amrywiaeth o gamau gweithredu cyraeddadwy a allai fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion neu ganlyniadau annisgwyl. Fodd bynnag, nid yw o reidrwydd yn dilyn y bydd methiant i gyflawni targed penodol yn cael ei ddehongli fel methiant polisi a fyddai'n golygu'n awtomatig bod y polisi hwn (neu'r Cynllun cyfan) yn dod yn destun adolygiad.

Mae'r tabl isod yn nodi'r camau gweithredu posibl a allai ddeillio o'r gwaith monitro, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y Fframwaith Monitro ym Mhennod 7 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae nifer o opsiynau posibl i helpu i ddelio â dangosyddion sy'n rhoi'r argraff o fethiant i gyflawni yn unol â'r disgwyliad.

| Asesiad | Cam gweithredu |
|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Dim angen cymryd camau pellach heblaw am barhau i fonitro |
| Asesiad o'r penderfyniad ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad | Efallai y bydd angen hyfforddiant ychwanegol ar Swyddog a/neu Aelod |
| Mae'r asesiad yn awgrymu bod angen rhagor o arweiniad ar gyfer y rheini a nodir yn y Cynllun i egluro sut dylid gweithredu polisi'n gywir, neu i hwyluso'r gwaith o ddatblygu safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, pan fo'n berthnasol. |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Mae angen ymchwil ac ymchwiliad pellach, sy'n cynnwys archwilio gwybodaeth gyd-destunol am ardal y Cynllun neu'r maes pwnc. |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r polisi yn cael ei weithredu | Adolygu'r polisi |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei gweithredu | Arolygu'r Cynllun |
| Mae'r targed wedi'i gyrraedd neu nid yw'r data'n berthnasol i Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn | Dim angen gweithredu pellach |

Er mwyn helpu i ddehongli'r monitro, defnyddiwyd cynllun lliwiau syml i ddangos sut mae'r dangosydd yn perfformio:

| Disgrifiad |
|---|
| Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |

Mae'r AMB hwn yn dilyn fformat tebyg i fersiynau blaenorol, fodd bynnag, mae'r ffocws ar gyfer AMB 7 ar ddata sy'n berthnasol i Ynys Môn yn unig. Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn ddefnyddiol fel tystiolaeth o baratoi'r CDLl newydd.

# Dadansoddi Newidiadau Cyd-Destunol

Yn ystod y cyfnod monitro, cyhoeddwyd dogfennau polisi/canllawiau newydd a rhai wedi'u diweddaru, a chyflwynwyd deddfwriaeth. Mae'n bwysig deall y ffactorau amrywiol a allai effeithio ar berfformiad y CDLl ar y Cyd, o lefelau byd eang a chenedlaethol, i bolisïau lleol a chanllawiau'r Cyngor ei hun. Mae rhai newidiadau yn amlwg y tu hwnt i reolaeth y Cyngor yn llwyr. Mae'r Bennod hon yn rhoi trosolwg byr o'r cynnwys cyd-destunol perthnasol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'n cynnwys deddfwriaeth genedlaethol, a chynlluniau, polisïau a strategaethau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae unrhyw oblygiadau cyffredinol posibl i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyfan yn cael eu hamlinellu lle bo hynny'n briodol. Amlinellir tueddiadau economaidd cyffredinol sydd wedi ymddangos yn ystod cyfnod yr AMB hefyd. Bydd gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i faes polisi penodol yn y CDLlC yn cael ei darparu yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol er hwylustod ac, felly, ni fydd yn cael ei hailadrodd yma.

## Y Cyd-destun Cenedlaethol

### Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 (Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol)

Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddwyd cyngor cynllunio wedi'i ddiweddaru ar lifogydd drwy Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN) newydd. Mae'r TAN yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol, wrth baratoi eu Cynllun Datblygu Lleol, gynnal Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (SFCA) llawn a defnyddio allbynnau'r astudiaethau hyn i lywio dyraniadau tir yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Rôl yr SFCA yw nodi'r perygl o lifogydd o amrywiaeth o ffynonellau a darparu gwybodaeth hanfodol i wneud penderfyniadau gwybodus am ddatblygiadau defnydd tir. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar y Cynllun Datblygu Lleol fel y mecanwaith ar gyfer dyrannu safleoedd ond hefyd ar gyfer nodi mesurau lliniaru llifogydd ac asesu risg.

# Polisi Cynllunio Cymru

Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC), Rhifyn 12, ym mis Chwefror 2024. Mae wedi'i strwythuro o amgylch pedair thema allweddol: Dewisiadau Strategol a Gofodol; Lleoedd Actif a Chymdeithasol; Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus; a Lleoedd Naturiol Unigryw. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu'r prif amcanion ac egwyddorion polisi, gan gynnwys polisïau ar bynciau defnydd tir allweddol.

Mewn perthynas â'r diwygiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, mae newidiadau ategol hefyd yn cael eu gwneud i adran 4.2 Polisi Cynllunio Cymru (PCC). Mae'r newidiadau polisi hyn yn ei gwneud yn glir, lle bo hynny'n berthnasol, bod yn rhaid ystyried pa mor gyffredin yw ail gartrefi a llety tymor byr mewn ardal leol wrth ystyried gofynion tai a dulliau polisi mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn glir, pan fydd awdurdod cynllunio lleol yn cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, y dylai atgyfnerthu ei gamau gweithredu drwy fynnu bod amodau'n cael eu gosod ar bob annedd newydd gan gyfyngu eu defnydd i Ddosbarth C3 lle byddai amod o'r fath yn bodloni'r profion perthnasol. Dylai awdurdodau lleol hefyd ddyrannu safleoedd mewn CDLlau sydd wedi'u cyfyngu i ddefnydd C3, gan gynnwys tai marchnad lleol, mewn ardaloedd lle maent yn ceisio rheoli ail gartrefi a llety gosod tymor byr.

Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng natur, ceir Pennod 6 ddiwygiedig - 'Lleoedd Unigryw a Naturiol' - lle ceir newidiadau polisi i seilwaith gwyrdd, budd net i fioamrywiaeth a'r dull gweithredu fesul cam, diogelwch ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a choed a choetiroedd.
Un newid allweddol yw'r gofyniad y dylai pob cais cynllunio a gyflwynir gynnwys 'Datganiad Seilwaith Gwyrdd'. Mae Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru 12 yn nodi y dylai 'Datganiad Seilwaith Gwyrdd' ddisgrifio sut mae seilwaith gwyrdd wedi cael ei ymgorfforі yn y cynnig.

# Y Cyd-destun Rhanbarthol

## Cynlluniau Datblygu Strategol

Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yng Nghymru yng nghamau cynnar eu datblygiad ar hyn o bryd, a disgwylir i'r Cynlluniau Datblygu Strategol cynharaf gael eu mabwysiadu tua 2030. Mae'r cynlluniau rhanbarthol hyn yn cael eu paratoi gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig a byddant yn mynd i'r afael â materion strategol trawsffiniol fel tai, trafnidiaeth a seilwaith, gan arwain datblygiadau ledled Cymru yn y dyfodol. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn dylanwadu ar y genhedlaeth nesaf o Gynlluniau Datblygu Lleol, a fydd yn dod yn "Gynlluniau Datblygu Lleol Cryno" (CDLIC) unwaith y bydd y Cynlluniau Datblygu Strategol ar waith.

Bydd y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru yn cael ei ddatblygu gan Gyd-bwyllgor Corfforedig (CJC) sy'n cynnwys CBS Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn darparu glasbrint ar gyfer sut bydd Gogledd Cymru yn tyfu ac yn datblygu dros y degawdau nesaf, gan sicrhau bod twf yn cael ei gynllunio a'i fod yn gynaliadwy. Bydd yn ddogfen allweddol ar gyfer llunio dyfodol y rhanbarth a bydd yn llywio penderfyniadau datblygu lleol.

## Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae Trafnidiaeth Ranbarthol Ddrafft Gogledd Cymru yn nodi cynlluniau i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru er mwyn cefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth. O ran cynllunio defnydd tir, mae Polisi LU1 yn cefnogi egwyddor Datblygiad sy'n Canolbwyntio ar Systemau Trafnidiaeth (strategaeth gynllunio drefol sy'n canolbwyntio ar greu datblygiadau dwysedd uchel, defnydd cymysg o amgylch canolfannau trafnidiaeth gyhoeddus) ar gyfer datblygiadau newydd yng Ngogledd Cymru. Mae'r polisi'n datgan ei bod yn "hanfodol bod trafnidiaeth gynaliadwy yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio datblygu. Dylai datblygiadau defnydd cymysg gyfuno mannau preswyl, masnachol a hamdden o fewn pellter cerdded hawdd i orsafoedd bysiau a threnau. Bydd adeiladu mwy o gartrefi yn nes at orsafoedd yn gwella hygyrchedd ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat. Rhaid cefnogi hyn gan bolisïau ac ymyriadau ehangach sy'n ymwneud â gwella amlder, dibynadwyedd a darpariaeth gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i'w gwneud yn ddewis ymarferol yn lle teithio mewn ceir, a gwneud i'n ffyrdd, ein strydoedd a'n mannau cyhoeddus deimlo'n ddiogel ac yn gyfleus ar gyfer cerdded, olwyno a beicio."

# Y Cyd-destun Lleol

## Porthladd Rhydd Ynys Môn

Cadarnhaodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022 y bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn un o ddau borthladd rhydd i'w sefydlu yng Nghymru. Mae Porthladdoedd Rhydd yn cael gwared ar rwystrau masnach ac yn darparu hawddfreintiau sy'n symleiddio sut gall busnesau weithredu. Yn ôl amcangyfrifon modelu, byddai'r porthladd rhydd yn denu gwerth £1 biliwn o fuddsoddiad y mae mawr ei angen, gan gynnwys tua 3,500 i 13,000 o swyddi cyflog uchel ar draws y rhanbarth. Mae gan ennill statws porthladd rhydd botensial yn awr i ddarparu newid go iawn i gymunedau ledled Ynys Môn a rhanbarth ehangach gogledd Cymru.

Bydd statws Porthladd Rhydd hefyd yn rhoi hwb sylweddol i Raglen Ynys Ynni'r cyngor sir - sy'n ceisio dod yn ganolbwynt ar gyfer ymchwil a datblygu ynni carbon isel, cynhyrchiant, arloesi a gwasanaethu - ac sy'n cefnogi ei darged uchelgeisiol o gyflawni sero net erbyn 2030. Bydd y porthladd rhydd yn amsugno llawer o'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd yn y CDLlC, sy'n golygu y bydd yn rhaid dyrannu tir cyflogaeth newydd yn y CDLl newydd.

# Dadansoddiad o Ddangosyddion

## Cymunedau Diogel, Iach, Unigryw a Bywiog

### Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant

Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer Cymru gyfan, Awdurdodau Lleol Cymru ac ar gyfer pob Ardal Cynnyrch Ehangach Is (LSOA). Yng Nghymru, 17.8% oedd y nifer a oedd yn gallu siarad Cymraeg, gostyngiad o 1.2% ers 2011. Mewn gwirionedd, roedd 18 o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi gweld gostyngiad, gyda'r gostyngiad mwyaf yn Sir Gaerfyrddin (-4.0%), a gwelwyd y cynnydd mwyaf yng Nghaerdydd (+1.1%).

Ar Ynys Môn ar Ddiwrnod y Cyfrifiad yn 2021, roedd 37,413 o bobl (3 oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n cyfateb i 55.8%. Yn 2011 y ganran gyfatebol oedd 57.2% gyda 38,568 o siaradwyr Cymraeg 3 oed a hŷn yn 2011. Felly, mae'r gyfran wedi gostwng 1.4% gyda nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng 1,155.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r newid sydd wedi'i weld yn Ynys Môn ac yng Nghymru drwyddi draw ar sail canran y siaradwyr Cymraeg fesul grŵp oedran:

| Grŵp Oedran | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| 3 – 15 | -3.5% | -5.7% |
| 16 – 24 | +1.7% | +0.8% |
| 25 – 34 | +0.7% | +0.9% |
| 35 – 49 | +3.0% | +1.1% |
| 50 – 64 | -1.5% | -0.7% |
| 65 – 79 | -4.7% | -2.1% |
| 80 + | -0.6% | -2.6% |

Mae patrwm gweddol gyson o ran pa oedrannau sydd wedi gweld cynnydd neu ostyngiad. Nid yw'n glir a yw pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar y dirywiad sydd wedi bod yn garfan 3-15 oed gyda llawer o blant yn cael eu haddysgu ar-lein gartref yn hytrach nag yn yr ysgol. Dylid cadw hyn mewn cof drwy drafodaethau gyda'r Gwasanaeth Addysg i sefydlu unrhyw ystadegau mwy cyfredol sydd ganddynt ar gyfer sgiliau iaith plant yn yr ysgolion lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r 5 cymdogaeth (LSOA) sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021:

| Cymdogaeth (LSOA) | Cynnydd mewn % |
|---|---|
| Porthyfelin 2 (Caergybi) | +4.9% |
| Kingsland (Caergybi) | +2.9% |
| Llanfair-yn-neubwll 2 (Caergeiliog / Llanfihangel yn Nhowyn) | +2.6% |
| Rhosyr (Dwyran / Niwbwrch / Llangaffo) | +1.9% |
| Trearddur 2 | +1.2% |

Mae rhai o'r cymdogaethau hyn wedi gweld datblygiadau tai sylweddol ers 2011 sy'n adlewyrchu twf y boblogaeth. Gwelodd Kingsland (Caergybi) dwf o 176 o bobl yn ei boblogaeth 3 oed a hŷn rhwng 2011 a 2021 gydag ystâd Cae Rhos yn ychwanegu tua 50 o dai at y

gymdogaeth. Yn Nhrearddur 2, gostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg o 391 i 364 (- 27) ond gostyngodd nifer y di-Gymraeg o 767 i 677 (-90). Yn y cyfnod 2019 i 2023 mae nifer yr ail gartrefi / llety gwyliau yng Nghyngor Cymuned Trearddur wedi cynyddu o 387 uned i 455 (+68).

Yng Nghaergeiliog, sy'n rhannol o fewn Llanfair-yn-neubwll 2, mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ychydig o 485 yn 2011 i 481 yn 2021 (-4) tra bo'r nifer di-Gymraeg wedi gostwng o 915 yn 2011 i 812 yn 2021 (-103). Yn y cyfnod 2019 i 2023 dim ond cynnydd o 1 uned sydd wedi bod yn nifer yr ail gartrefi / llety gwyliau o 37 i 38 uned. Felly, mae'n annhebygol bod y gostyngiad yn nifer y bobl ddi-Gymraeg yn y gymuned hon wedi cael ei sbarduno gan gynnydd mewn ail gartrefi / llety gwyliau ers 2011. O ran tai newydd yn y cyfnod 2011 i 2021 cwblhawyd 6 uned yng Nghaergeiliog.

Ym Mhorthyfelin 2 (Caergybi) mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu o 449 yn 2011 i 501 yn 2021 (+52) ac mae'r nifer di-Gymraeg wedi gostwng o 684 yn 2011 i 625 yn 2021 (-59). O ran datblygiadau tai nid oes safle sylweddol wedi'i ddatblygu yn y gymdogaeth sydd efallai yn rheswm bod y boblogaeth 3 oed a hŷn wedi gostwng ychydig o 1,133 yn 2011 i 1,126 yn 2021 (-7).

O ran y 5 cymdogaeth sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021 mae'r manylion yn y tabl canlynol:

| Cymdogaeth (LSOA) | Cynnydd mewn niferoedd |
|---|---|
| Kingsland (Caergybi) | +122 |
| Parc a'r Mynydd (Caergybi) | +115 |
| Llanfihangel Esceifiog (Gaerwen) | +98 |
| Cyngar (Llangefni) | +97 |
| Llanfair yn Neubwll 1 (Bodedern / Caergeiliog) | +86 |

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r cymdogaethau (LSOA) sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021:

| Cymdogaeth (LSOA) | Gostyngiad yn ôl % |
|---|---|
| Cefni (Llangefni) | -7.9% |
| Llaneilian (Penysarn/Rhosybol) | -6.3% |
| Tudur (Llangefni) | -5.9% |
| Llanbadrig (Cemaes) | -5.3% |
| Porth Amlwch | -3.0% |

Cynyddodd poblogaeth Cefni (Llangefni) 215, gyda nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu 42 ond nifer y di-Gymraeg yn cynyddu 173. Yn Llaneilian (Pensarn / Rhosybol) mae 69 yn fwy o bobl yn byw yno, ond mae 104 yn llai o bobl yn siarad Cymraeg ac mae 173 yn fwy o bobl yn ddi-Gymraeg. Mae poblogaeth Tudur (Llangefni) wedi cynyddu 34 o ran ei phoblogaeth 3 oed a hŷn ond cafwyd gostyngiad o 62 yn nifer y siaradwyr Cymraeg a chynnydd o 96 yn nifer y bobl ddi-Gymraeg. Yn Llanbadrig (Cemaes) mae'r boblogaeth 3 oed a hŷn wedi gweld gostyngiad o 168 yn nifer y bobl, gyda gostyngiad o 149 yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg a 19 yn nifer y bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae poblogaeth Porth Amlwch, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r Dref, wedi gostwng 46 gyda nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng 148 tra bo'r nifer di-Gymraeg wedi cynyddu 102.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D1**. % siaradwyr Cymraeg yn 2021 yn Ynys Môn a Gwynedd |
| **Amcan** | **SO1**. Diogelu a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant |

| | |
|---|---|
| | a hyrwyddo'r defnydd ohoni fel rhan hanfodol o fywyd cymunedol. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS1**. |
| **Targed** | Mae datblygiadau newydd yn cyfrannu at gynnal neu gryfhau'r Gymraeg yn Ynys Môn a Gwynedd. (Noder: Mae effaith uniongyrchol datblygiadau newydd ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau unigol ac Ardal y Cynllun yn faes anodd i'w fonitro, o gofio na all y Cynllun wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol. Mae'r Cyngor o'r farn bod angen cyfuniad o ddulliau gweithredu er mwyn monitro effeithiolrwydd polisïau, gan gynnwys y dangosyddion a nodir o dan y thema hon.) |
| **Trothwy** | Naratif bob dwy flynedd am gynlluniau perthnasol sydd wedi'u cwblhau, e.e. o dan Bolisi PS 1, Polisi TAI 1 - Polisi TAI 7, erbyn 2019 |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae rôl cynllunio wedi'i chyfyngu i geisio creu'r amgylchiadau gorau posibl drwy bolisïau'r Cynllun i hwyluso datblygu cynaliadwy a allai gynyddu canran y siaradwyr Cymraeg. Mae nifer o bolisïau yn y Cynllun sy'n helpu i hwyluso datblygu cynaliadwy, sef:<br>• Polisi TAI 5 'Tai Marchnad Leol' sy'n atal unrhyw dai marchnad agored o fewn yr aneddiadau arfordirol a restrwyd;<br>• Mae Polisi TAI 15 'Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy ' yn gofyn am elfen fforddiadwy ar gyfer datblygu 2 neu fwy o unedau tai o fewn Canolfannau a Phentrefi;<br>• Mae Polisi TAI 16 'Safleoedd Eithriedig' yn cefnogi datblygiadau sy'n cynnwys tai fforddiadwy 100%;<br>• Mae Polisi TAI 6 'Clystyrau' a TAI 7 'Trosi Adeiladau Traddodiadol yng Nghefn Gwlad Agored i Ddefnydd Preswyl' yn cefnogi darpariaeth tai fforddiadwy yn unig;<br>• Mae Polisi TAI 8 'Cymysgedd Tai Priodol' yn sicrhau bod pob datblygiad preswyl yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai a diwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer y gymuned gyfan;<br><br>Oherwydd dibynadwyedd ac argaeledd ffigurau sgiliau iaith o Gyfrifiad 2021, eleni mae'r AMB (fel o'r blaen) yn canolbwyntio ar ffigurau'r Cyfrifiad yn hytrach na ffigurau o arolygon blynyddol. |

| Dadansoddiad. |
|---|
| Ar Ynys Môn ar Ddiwrnod y Cyfrifiad yn 2021, roedd 37,413 o bobl (3 oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n cyfateb i 55.8%. Yn 2011 y ganran gyfatebol oedd 57.2% gyda 38,568 o siaradwyr Cymraeg 3 oed a hŷn yn 2011. Felly, mae'r gyfran wedi gostwng 1.4% gyda nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng 1,155.<br><br>Fel yr amlygwyd yn y bennod flaenorol, mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd yng nghanran y siaradwyr tra bod eraill wedi gweld cynnydd yn y nifer ond gostyngiad yn y ganran. I rai cymdogaethau, gall hyn fod yn seiliedig ar golli unedau o'r stoc dai i'w defnyddio fel ail gartrefi / llety gwyliau. Mewn llawer o'r cymdogaethau sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg, ychydig iawn o dwf tai newydd sydd wedi bod drwy'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.<br><br>Un mater sydd wedi dod yn fwy amlwg dros y blynyddoedd diwethaf yw effaith ail gartrefi / llety gwyliau ar y stoc dai. Mae hyn yn creu problem i'r gymuned leol y gellir ei phrisio allan o'r farchnad dai agored. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r broblem hon drwy ddiwygio'r dosbarthiadau defnydd ar gyfer tai. Yn flaenorol, roedd defnyddio tŷ annedd at ddibenion ail gartref neu lety gwyliau tymor byr yn cael ei ddiffinio fel defnydd C3 (tŷ annedd) ac o'r herwydd nid oedd angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer y defnyddiau hyn. Bellach, trwy ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987, cyflwynwyd dosbarthiadau defnydd penodol ar gyfer:<br>• C3: Prif gartref<br>• C5: Ail gartref<br>• C6 Llety gwyliau tymor byr<br><br>Ar ben hynny, mae diwygiad wedi cael ei wneud i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir)<br>1995 (fel y'i diwygiwyd) sy'n caniatáu'r newid anghyfyngedig<br>rhwng y dosbarthiadau defnydd hyn, hynny yw, nid oes angen cael caniatâd cynllunio<br>er mwyn gallu newid rhwng y dosbarthiadau defnydd dan sylw.<br><br>Er mwyn gallu rheoli'r newidiadau defnydd anghyfyngedig hyn, gall Awdurdod Cynllunio Lleol gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Byddai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dirymu<br>hawliau datblygu penodol a ganiateir mewn amgylchiadau eithriadol.<br>Byddai cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn gofyn am ganiatâd cynllunio i newid defnydd o fod yn brif<br>ofod preswyl (dosbarth defnydd C3) i ail gartref (dosbarth defnydd C5) neu lety gwyliau (dosbarth defnydd C6). (Gweler Pennod 2 uchod am fanylion y newidiadau Cenedlaethol hyn).<br>Mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 drafft yn cael ei ystyried gan y Cyngor ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa ar gyfer ceisiadau sydd wedi cael eu caniatâd cynllunio ac wedi'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun: |

| Cyfnod | Nifer yr Unedau a gafodd ganiatâd cynllunio ac a gwblhawyd yn ystod cyfnod y cynllun | Nifer sy'n Dai Fforddiadwy | Canran y Tai Fforddiadwy |
|---|---|---|---|
| AMB 1 | 56 | 35 | 62.5% |

| Cyfnod | Nifer yr Unedau a gafodd ganiatâd cynllunio ac a gwblhawyd yn ystod cyfnod y cynllun | Nifer sy'n Dai Fforddiadwy | Canran y Tai Fforddiadwy |
|---|---|---|---|
| AMB 2 | 90 | 45 | 50.0% |
| AMB 3 | 125 | 55 | 44.0% |
| AMB 4 | 205 | 87 | 42.4% |
| AMB 5 | 231 | 117 | 50.6% |
| AMB 6 | 178 (Ynys Môn yn unig) | 53 | 29.8% |
| AMB 7 | 249 (Ynys Môn yn unig) | 104 | 41.8% |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae'r ffactorau y cyfeirir atynt uchod yn tynnu sylw at sut mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn mynd i'r afael ag anghenion y gymuned leol. Fel y gwelir o'r dadansoddi uchod o ganlyniadau'r Cyfrifiad, mae llawer o'r newidiadau lleol yn deillio o symudiadau o fewn y stoc dai bresennol sydd y tu hwnt i reolaeth y Cynllun. Gyda'r newidiadau Cenedlaethol i ddosbarthiadau defnydd ar gyfer tai a chaniatâd i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, gall Cynghorau yn y dyfodol gael mwy o reolaeth dros nifer yr ail gartrefi / llety gwyliau sy'n deillio o'r stoc dai bresennol. Pe bai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gyflwyno, bydd angen adlewyrchu hyn wrth lunio polisïau tai yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn ogystal â diweddaru'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r Polisi Tai Marchnad Lleol i ymestyn yr ardal lle mae'n berthnasol. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D2**. Caniateir ceisiadau cynllunio lle mae angen mesurau lliniaru ar gyfer yr iaith Gymraeg. |
| **Amcan** | **SO1**. Diogelu a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant a hyrwyddo'r defnydd ohoni fel rhan hanfodol o fywyd cymunedol. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS1**. |
| **Targed** | Lle bo angen, mae niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned yn cael ei osgoi neu ei liniaru'n briodol yn unol â Pholisi PS 1 |
| **Trothwy** | Caniateir un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn yn groes i Bolisi PS1 |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| | |
|---|---|
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Fel yr amlygwyd yn yr ymateb i Ddangosydd D1, yn y flwyddyn 2024/25 rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 240 o unedau tai newydd (h.y. safleoedd nad oedd ganddynt ganiatâd ar y dyddiad y cafodd y Cynllun ei fabwysiadu). Mae'r unedau hyn wedi cael caniatâd ar safleoedd o'r maint a nodir yn y tabl isod: |

| Maint Ceisiadau Tai | Nifer y Safleoedd | Cyfanswm yr unedau |
|---|---|---|
| 1 uned | 36 | 36 |
| 2 i 5 uned | 13 | 46 |
| 6 i 10 uned | 6 | 46 |
| 11+ uned | 6 | 112 |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Cafwyd 3 Asesiad Ieithyddol a 9 Datganiad Ieithyddol gyda cheisiadau a benderfynwyd arnynt lle roeddent yn cwrdd â'r trothwyon o fewn Polisi PS 1 (gweler Dangosydd D3 am fanylion y math o geisiadau y cyflwynwyd y rhain gyda hwy). Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 y Ddeddf, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n disgyn o dan y trothwy o'r rhai sydd angen Datganiad neu Asesiad ffurfiol. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D3**. Nifer y ceisiadau cynllunio y mae datganiad Cymraeg neu asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn cyd-fynd â hwy. |
| **Amcan** | **SO1**. Diogelu a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant a hyrwyddo'r defnydd ohoni fel rhan hanfodol o fywyd cymunedol. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS1**. |
| **Targed** | Rhaid cynnwys datganiad Cymraeg neu asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg gyda phob cais cynllunio perthnasol. |
| **Trothwy** | Un datganiad Cymraeg neu asesiad effaith ar y Gymraeg mewn unrhyw flwyddyn nad yw'n mynd i'r afael â ffactorau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| | |
|---|---|
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Yn ystod y cyfnod monitro, cyflwynwyd cyfanswm o 9 Datganiad Iaith Gymraeg ar Ynys Môn. Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 CCA, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau o dan y trothwy sy'n gofyn am Ddatganiad neu Asesiad ffurfiol. Yn yr achosion lle cyflwynwyd Datganiadau/Asesiadau Iaith Gymraeg nad oeddent yn dilyn prif strwythur y templed ymateb yn y CCA "Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy" a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2019, gofynnwyd am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y CCA a fabwysiadwyd. Ystyrir bod y polisïau'n parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D4**. Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol i hyrwyddo'r gwaith o gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy |
| **Camau gweithredu** | Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i'w fonitro |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D5**. Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr. |
| **Amcan** | **SO2**. Sicrhau bod seilwaith ffisegol neu gymunedol priodol ar waith e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr) i ymdopi â phob math o ddatblygiad. |
| **Polisïau Allweddol** | **ISA 1, ISA 2, ISA 4, ISA 5.** |
| **Targed** | Lle bo'n briodol, bydd datblygiadau newydd yn mynd i'r afael â'r effaith ar gymunedau drwy ddarparu seilwaith newydd neu well yn unol â Pholisi ISA 1. |
| **Trothwy** | Caniateir un cais cynllunio yn groes i Bolisi ISA 1 mewn unrhyw flwyddyn. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| | |
|---|---|
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae polisïau'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth seilwaith yn ddigonol ar gyfer datblygiadau newydd. Os nad yw hyn yn wir, yna gellir gofyn am gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr i sicrhau bod digon o gapasiti seilwaith yn bodoli. Cyflwynwyd 2 gais cynllunio lle'r oedd seilwaith newydd neu well drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr. Roedd y rhain yn gyfraniadau at ddibenion addysg a lliniaru bioamrywiaeth.<br>Ni chymeradwywyd unrhyw gais cynllunio yn groes i Bolisi ISA 1 yn ystod y cyfnod monitro. Felly, mae'r targed i atal datblygiadau rhag cael eu cymeradwyo lle nad oes digon o seilwaith mewn unrhyw flwyddyn yn cael ei gyrraedd. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o waith paratoi'r Cynllun newydd. |

| **Dangosydd** | **D6**. Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer newid defnydd cyfleusterau. |
|---|---|
| **Amcan** | **SO2**. Sicrhau bod seilwaith ffisegol neu gymunedol priodol ar waith e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr) i ymdopi â phob math o ddatblygiad |
| **Polisïau Allweddol** | **ISA 1, ISA 2, ISA 4, ISA 5.** |
| **Targed** | Cyfleusterau cymunedol hyfyw yn cael eu cadw yn unol â Pholisi ISA 2. |
| **Trothwy** | Colli un cyfleuster cymunedol hyfyw yn groes i Bolisi ISA 2 mewn unrhyw flwyddyn. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| | |
|---|---|
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| **Targed** | Cynnydd yn nifer y cyfleusterau rheoli gwastraff a ddarperir ar safleoedd cyflogaeth a nodwyd ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1, o gymharu â'r nifer a ddarparwyd ar safleoedd cyflogaeth yn 2016/2017. |
| **Trothwy** | Dim ceisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth wedi eu nodi ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1. |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Dim caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni o wastraff yn ystod y cyfnod AMB hwn.<br><br>Ystyrir bod Polisïau CYF 1 a GWA 1 yn cael eu gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D67.** Faint o agregau crai a dynnir o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau a fynegir fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN) |
| **Amcan** | **SO19:** Diwallu anghenion mwynau yn lleol ac yn rhanbarthol mewn modd cynaliadwy. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 22, MWYN 6** |
| **Targed** | Cynnal cyflenwad tir o 10 mlynedd o leiaf o gronfeydd agregau cerrig mâl drwy gydol cyfnod y Cynllun yn ardal y Cynllun yn unol â Pholisi PS22 |
| **Trothwy** | Cyflenwad tir o lai na 12 mlynedd o gronfeydd agregau cerrig mâl yn ardal y Cynllun mewn unrhyw flwyddyn |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |

**Dadansoddiad.**

Ar ddiwedd 2016, roedd 42.94 miliwn tunnell o gronfeydd agregau cerrig mâl â chaniatâd, sy'n llawer uwch na lefel y trothwy (Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (2016)).

Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y dosbarthiad a amlinellir yn yr Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS) a gynhelir bob pum mlynedd. Mae pob adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn darparu mecanwaith er mwyn hybu'r amcanion cynaliadwyedd cenedlaethol y mae angen i bob Awdurdod Lleol unigol yn y rhanbarth eu cyflawni dros gyfnod o 25 mlynedd ar gyfer cerrig mâl (sy'n ddigonol i fodloni gofynion MTAN1 o sicrhau banc tir 10 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLl ar y Cyd. Mae'r ardaloedd sy'n cael eu ffafrio ar gyfer cerrig mâl ym Mholisi MWYN 2 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn fwy na'r dyraniad sylfaenol sydd ei angen i fodloni'r ddarpariaeth ofynnol a nodir yn yr Ail Ddatganiad Technegol Rhanbarthol.

**Camau gweithredu.**

Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D68.** Y cyflenwad o dir tywod a gro yn ardal y Cynllun. |

| | |
|---|---|
| **Amcan** | **SO19:** Diwallu anghenion mwynau yn lleol ac yn rhanbarthol mewn modd cynaliadwy. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 22, MWYN 6** |
| **Targed** | Cynnal cyflenwad tir am o leiaf 7 mlynedd o dywod a gro drwy gydol cyfnod y Cynllun yn ardal y Cynllun yn unol â Pholisi PS22. |
| **Trothwy** | Caniateir un cais cynllunio yn groes i Bolisi MWYN 6 |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Roedd gan Ogledd Cymru tua 15.70 miliwn o dwneli metrig o dywod a gro gweddilliol ddiwedd 2016 (cyfraniad ardal y Cynllun tuag at y cyfanswm hwn oedd 1.175 miliwn). Gan ddefnyddio gwerthiant cyfartalog dros 10 mlynedd, fel yr argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei llythyr esbonio polisi CL-04-14, mae hyn yn cyfateb i fanc tir o 21.8 mlynedd.<br><br>Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y dosbarthiad a amlinellir yn yr Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS) a gynhelir bob pum mlynedd. Mae pob adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn darparu mecanwaith er mwyn annog yr amcanion cynaliadwyedd cenedlaethol y mae angen i bob Awdurdod Lleol unigol yn y rhanbarth eu cyflawni dros gyfnod o 22 mlynedd ar gyfer tywod a gro (sy'n ddigonol i fodloni gofynion NCTM1 o gyflawni banc tir 7 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLl ar y Cyd. Er bod y banc tir o dywod a gro ar gyfer ardal y Cynllun yn is na'r trothwy 7 mlynedd, mae'r ardaloedd sy'n cael eu ffafrio a nodir ym Mholisi MWYN 2 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn fwy na'r dyraniad sylfaenol sydd ei angen i fodloni'r ddarpariaeth ofynnol yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **D69.** Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir o fewn clustogfa fwynau |
| **Amcan** | **SO19:** Diwallu anghenion mwynau yn lleol ac yn rhanbarthol mewn modd cynaliadwy. |
| **Polisïau Allweddol** | **PS 22, MWYN 6** |
| **Targed** | Dim datblygiad yn cael ei ganiatáu o fewn clustogfa fwynau a fyddai'n arwain at sterileiddio'r Adnodd mwynol, oni bai ei fod yn unol â Pholisi MWYN 6 |

| | |
|---|---|
| **Trothwy** | Caniateir un cais cynllunio yn groes i Bolisi MWYN 6 |

Canlyniad / Camau Gweithredu, o un flwyddyn i'r llall:

| | |
|---|---|
| AMB 1 (2018– 2019) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 2 (2019– 2020) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 3 (2020– 2021) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 4 (2021– 2022) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 5 (2022– 2023) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 6 (2023– 2024) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |
| AMB 7 (2024 – 2025) | Mae polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau, neu'n well na'r disgwyliadau |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Ni roddwyd caniatâd cynllunio o fewn clustogfa fwynau sy'n groes i Bolisi MWYN 5. O ganlyniad, ystyrir bod Polisi MWYN 5 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd. |

| **Camau gweithredu.** |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi Cynllun newydd. |

# Casgliadau ac Argymhellion

Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn adrodd ar ddata o Ynys Môn yn unig oherwydd bod y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd â Chyngor Gwynedd wedi cael ei wahanu ym mis Ebrill 2023. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn dilyn yr un fformat ag adroddiadau a dogfennau blaenorol ar berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ond ar gyfer Ynys Môn yn unig. Bydd yr wybodaeth a gyflwynir yn yr Adroddiad yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol i hysbysu datblygiad polisi yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd ar gyfer Ynys Môn a fydd yn adlewyrchu anghenion yr Ynys o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Ystyrir bod cynnydd da'n cael ei wneud ar y cyfan o ran cyflawni'r targedau a amlinellir yn y fframwaith monitro. Lle nad yw targedau wedi'u cyrraedd, mae hyn yn bennaf oherwydd ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth y CDLlC. Fel y nodwyd uchod bydd angen i'r ffactorau hyn gael eu hystyried gan yr ACLl wrth baratoi CDLl newydd. Er bod materion lle mae angen gwneud rhagor o waith a bod angen ailedrych ar y polisïau, rhaid dilyn y camau statudol o baratoi Cynllun newydd drwy baratoi sylfaen dystiolaeth gadarn i gefnogi unrhyw newidiadau i bolisi neu bolisïau newydd.

Mae nifer y tai a gwblhawyd yn ardal y Cynllun ers dyddiad cychwyn y Cynllun (2011) yn is na'r ffigwr disgwyliedig. Mae nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys nad yw twf economaidd wedi bod ar y raddfa ddisgwyliedig, nad yw prosiectau seilwaith ar raddfa fawr wedi datblygu, canlyniadau'r pandemig neu nad yw'r galw am dai mewn rhai rhannau o'r Cynllun wedi bod ar y gyfradd ddisgwyliedig.

Mae 1000 o dai fforddiadwy wedi cael caniatâd ar Ynys Môn ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu yn 2017 gyda 16 o'r rhain yn cael caniatâd ar Ynys Môn yn ystod 2024-25. Cafodd 104 o unedau fforddiadwy eu cwblhau eleni allan o gyfanswm o 249 o unedau tai, sy'n golygu bod 41.8% o'r holl unedau a gwblhawyd yn fforddiadwy, y ganran uchaf ers dechrau monitro ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. O'r unedau a gafodd ganiatâd ac a gwblhawyd ers mabwysiadu'r Cynllun, mae canran y tai fforddiadwy oddeutu 44%. Mae hyn yn golygu bod caniatadau newydd o dan y Cynllun hyd yma wedi darparu canran uchel o dai fforddiadwy, gan sicrhau bod anghenion lleol yn cael sylw a bod hyn yn helpu i gynnal y Gymraeg yn ardal y Cynllun.

Yn gyffredinol, mae'r dangosyddion yn y fframwaith monitro yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau o dan yr amgylchiadau. Lle nad yw targedau polisi'n cael eu cyflawni, mae hyn yn gyffredinol oherwydd ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, er enghraifft dangosyddion sy'n ymwneud â Wylfa Newydd. Bydd goblygiadau hyn yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun newydd. Lle nad yw targedau polisi eraill yn cael eu cyflawni, nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithredu polisi. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r CDLl newydd. Er gwaethaf y newidiadau cyd-destunol a amlinellir ym mhennod dau a chasgliad Adroddiad yr Adolygiad y dylid paratoi cynllun newydd, ystyrir bod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn dal yn berthnasol ac yn darparu fframwaith cynllunio cadarn ar gyfer penderfynu ar geisiadau ar draws ardal y cynllun. Isod, tynnir sylw at sut mae'r cynllun yn dal i gyflawni ar gyfer yr ardal:

- Mae rhai datblygiadau yr adroddir arnynt yn benderfyniadau a wnaed cyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

- Ar y cyfan, mae penderfyniadau apêl ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi cefnogi polisïau a strategaeth y Cynllun, ac nid yw penderfyniadau apêl sydd wedi cael eu caniatáu yn tanseilio polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 88 uned breswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn dyddiad dod i ben y caniatadau presennol) ar Ynys Môn yn ystod 2024/25. Roedd 16 uned (18%) ar gyfer tai fforddiadwy ar Ynys Môn
- Nodir bod 2697 o unedau wedi eu cwblhau ar Ynys Môn rhwng y dyddiad sylfaen (2011) a 2024/25, tra bod y taflwybr yn nodi ffigwr o 3231 uned.
- Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio na phenderfyniadau apêl i addasu neu ddileu cytundebau neu amodau A106 ar gyfer tai'r farchnad agored lleol wedi cael eu cymeradwyo na'u caniatáu (yn ystod y cyfnod AMB hwn nac ers mabwysiadu'r Cynllun).
- Mae cynigion ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd ar safleoedd sydd wedi'u diogelu wedi cael eu cefnogi gan y polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
- Ar y cyfan mae'r dangosyddion o fewn y fframwaith monitro yn perfformio yn unol â disgwyliadau. Lle nad ydynt yn cael eu cyflawni nid oes pryder ynglŷn â gweithredu polisi.

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn parhau i gael ei fonitro yn unol â'r fframwaith monitro fel y nodir ym Mhennod 7 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Rhoddir ystyriaeth lawn i gasgliadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol wrth baratoi'r sylfaen dystiolaeth a fydd yn cefnogi polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

# Atodiad 1 - Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

Roedd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA), gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) fel proses ailadroddol drwy'r broses o baratoi'r cynllun. Ymgorfforodd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ofynion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn unol â Chyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC. Pwrpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd oedd gwerthuso effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebygol y Cynllun, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Roedd Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn nodi 11 amcan a 29 dangosydd sydd â'r bwriad o fesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Cynllun.

Dylid nodi mai rhagarweiniol oedd y rhaglen fonitro yn yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd ac mai dim ond dangosyddion posibl a nodwyd. Mae'r broses fonitro wedi canfod bod cyfle i wella monitro SA i sicrhau bod data priodol yn cael ei gasglu. Er nad oes yr un o'r dangosyddion wedi'u dileu, dylid nodi bod y dadansoddiad yn ei gwneud yn glir lle nad yw gwybodaeth ar gael a/neu lle nad yw'n berthnasol. Mewn rhai achosion, nid yw gwybodaeth ar gael mwyach (neu nid yw'n berthnasol); mewn achosion eraill, nid yw'r data sydd ar gael yn ddigon manwl i alluogi monitro defnyddiol.

Mae nifer o ddangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd lle nad yw gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol, er enghraifft y rheini sy'n seiliedig ar y cyfrifiad. Roedd goblygiadau pandemig Covid hefyd yn golygu nad oedd rhywfaint o wybodaeth ar gael. Pwrpas y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau yn flynyddol. O ganlyniad nid yw'r rhain o reidrwydd yn mynd i fod yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen o ran monitro yn y dyfodol. Fodd bynnag, maent wedi cael eu cadw er mwyn darparu llinell sylfaen.

Dylid nodi nad yw'r system sgorio goleuadau traffig a ddefnyddir ar gyfer Dangosyddion Monitro'r CDLl wedi cael ei datblygu i'w defnyddio gyda Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae llawer o amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn uchelgeisiol eu natur ac i ryw raddau byddent yn wybodaeth sy'n cael ei monitro mewn sefyllfa ddelfrydol. Yn ogystal, nid y CDLl yn unig fyddai'r unig ffactor y byddai angen ei ystyried wrth gyflawni eu nodau. Nid yw Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys targedau fel y cyfryw, yn wahanol i fonitro'r CDLl, felly byddai'n anodd dehongli'r sylwebaeth yn sgôr goleuadau traffig.

Gan mai dyma'r 7fed Adroddiad Monitro Blynyddol, bydd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar asesu'r newidiadau sydd wedi digwydd mewn perthynas â phob dangosydd Arfarniad o Gynaliadwyedd ers seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol gyda sylwebaeth o dan bob amcan Arfarniad o Gynaliadwyedd i ddisgrifio'r cynnydd. Asesir pob Amcan Arfarniad o Gynaliadwyedd yn erbyn y dangosyddion monitro perthnasol, gyda'r canfyddiadau wedi'u nodi yn yr adrannau isod.

Defnyddiwyd y codau lliw canlynol i roi crynodeb cyffredinol o ganfyddiadau pob dangosydd:

| **Arwydd** |
|---|
| Effeithiau Positif |
| Effeithiau Cymysg |
| Effeithiau Negyddol |
| Niwtral / Data ddim ar gael |

# Crynodeb o Fonitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

Mae'r tabl isod yn nodi'r asesiad cryno o ganlyniadau monitro'r arfarniad o gynaliadwyedd.

| Amcanion | Canlyniadau |
|---|---|
| Cynnal a gwella buddiannau a chysylltedd bioamrywiaeth | Effeithiau Positif |
| Hybu hyfywedd, cydlyniant, iechyd a lles cymunedau | Niwtral / Data ddim ar gael |
| Rheoli a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu | Effeithiau Positif |
| Gwarchod, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg | Effeithiau Negyddol |
| Gwarchod, hyrwyddo a gwella adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol | Effeithiau Positif |
| Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog ac amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol | Effeithiau Positif |
| Darparu tai o ansawdd da, gan gynnwys tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol | Effeithiau Positif |
| Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella tirweddau gwledig a threfweddau trefol ardal y cynllun | Effeithiau Positif |
| Defnyddio tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hybu mecanweithiau i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff | Effeithiau Positif |
| Hyrwyddo a gwella cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi | Effeithiau Positif |
| Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaliadwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd | Effeithiau Positif |

# Crynodeb o'r Canlyniadau

Mae canlyniadau monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn dangos, o'r 11 Amcan Cynaliadwyedd, bod effeithiau positif cyffredinol wedi'u nodi ar gyfer 9 amcan, effeithiau niwtral ar gyfer 1 amcan, ac 1 amcan y nodwyd ei fod yn cael effaith negyddol. Fodd bynnag, mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg yn golygu bod 1 amcan yn cael ei nodi fel un sy'n cael effaith negyddol. Mae'r tabl yn dangos, ar gyfer y rhan fwyaf o'r amcanion cynaliadwyedd a nodwyd, bod cynnydd yn cael ei wneud, ar y cyfan, yn erbyn yr ystod o ddangosyddion monitro ar gyfer yr amcan penodol. Mae'r tablau canlynol yn cynnwys dadansoddiad manwl o berfformiad yr holl ddangosyddion:

**Amcan - Cynnal a gwella buddiannau a chysylltedd bioamrywiaeth**

| Dangosydd SA | Targed | Data Sylfaenol / Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1. Colli bioamrywiaeth drwy ddatblygu sy'n cael ei fesur yn ôl colled neu effaith ar safleoedd rhyngwladol (e.e. SoDdGA) a safleoedd lleol yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. | Gostyngiad | 2021 / 2022 | Gweler y Dadansoddiad | Effeithiau Positif |
| 2. Colli bioamrywiaeth net yn ardal y CDLl a achosir gan ddatblygiad | Gostyngiad | AMH | Gweler y Dadansoddiad | Niwtral / Data ddim ar gael |
| 3. % y nodweddion (mathau amrywiol) sydd mewn cyflwr boddhaol, gan gynnwys ar y tir ac yn y môr | Cynnydd | 2019 / 2020 | Gweler y Dadansoddiad | Niwtral / Data ddim ar gael |
| 4. Cyflawni amcanion a thargedau'r CGB | Cynnydd | AMH | Gweler y Dadansoddiad | Niwtral / Data ddim ar gael |
| 5. Tueddiadau a statws NERC 2006, Rhywogaethau/cynefinoedd Adran 42 | Gwelliant | AMH | Gweler y Dadansoddiad | Niwtral / Data ddim ar gael |
| 6. Nifer ac ardal y SINCs ac LNR yn y cynllun | Cynnal / Cynnydd | 2019 / 2020 | Gweler y Dadansoddiad | Effeithiau Positif |

**Dadansoddiad.**

1. Cyfanswm y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd a oedd yn gyfan gwbl/rhannol o fewn safleoedd sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol neu'n rhyngwladol o werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth (h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol) oedd 2; roedd y rhain fel a ganlyn:

- FPL/2022/289 - Cais llawn am annedd newydd
- FPL/2024/133 - Cais llawn am annedd newydd

2. Er nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod ar hyn o bryd oherwydd adnoddau cyfyngedig, mae polisïau yn y CDLl yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei gwarchod.

3. Dim data wedi'i ddiweddaru ers yr AMB blaenorol. Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn unig, a'r canlyniadau fel a ganlyn:
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig - mae 40% (8 o 20 Ardal Cadwraeth Arbennig sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol) yn bob nodwedd sydd â chyflwr 'ffafriol';
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig - mae 89% (8 o 9 Ardal Gwarchodaeth Arbennig sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y CDLl) yn bob nodwedd sydd â chyflwr 'ffafriol';

4. Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr

| Dadansoddiad. |
|---|
| Awdurdod oherwydd adnoddau cyfyngedig.<br><br>5. Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd adnoddau cyfyngedig.<br><br>6. Dim newid ers yr AMB blaenorol:<br><br>• 6 LNR<br>• 143 Safle Bywyd Gwyllt |

**Amcan - Hybu hyfywedd, cydlyniant, iechyd a lles cymunedau**

| Dangosydd SA | Targed | Data Sylfaenol / Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1. % o gyfanswm y boblogaeth sydd â mynediad at wasanaethau allweddol | Cynnydd | AMH | Data ddim ar gael | Niwtral / Data ddim ar gael |
| 2. Mesurau iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw (e.e. dros bwysau / gordewdra) | Gwelliant | AMH | Data ddim ar gael | Niwtral / Data ddim ar gael |

| Dadansoddiad. |
|---|
| Nid oes data ar gyfer y ddau ddangosydd hyn ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i fonitro'r dangosydd mewn AMBau yn y dyfodol. |

**Amcan - Rheoli a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu**

| Dangosydd SA | Targed | Data Sylfaenol / Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1. % y newid mewn allyriadau carbon deuocsid o'r sectorau diwydiant / masnachol, domestig, trafnidiaeth ffyrdd, newid defnydd tir a choedwigaeth. | Gostyngiad | 2018 / 2019 | Gweler y Dadansoddiad | Effeithiau Positif |

| Dadansoddiad. |
|---|
| Mae'r tabl canlynol yn tynnu sylw at yr amcangyfrifon o allyriadau CO2 (KtCO2) ym mhob un o'r 5 sector ar Ynys Môn rhwng 2005 a 2023. (Ffynhonnell: Yr Adran Busnes, Ynni a Diwydiant a Chopi Carbon) |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae'r data'n dangos bod gostyngiad wedi bod mewn allyriadau carbon ym mhob un o'r pum sector ers yr AMB blaenorol. |

| | 2005 | 2018 | 2019 | 2023 |
|---|---|---|---|---|
| Diwydiant | 343 | 76.9 | 76.5 | 13.2 |
| Masnachol | 59.7 | 31 | 29.7 | 25.1 |
| Domestig | 210.8 | 129.9 | 126.7 | 93.8 |
| Trafnidiaeth | 136.2 | 137 | 134.7 | 122.6 |
| Coedwigaeth a Newid Defnydd Tir | 38.6 | 20.3 | 19.3 | -14.3 |

**Amcan - Gwarchod, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg**

| Dangosydd SA | Targed | Data Sylfaenol / Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1. Nifer / canran y siaradwyr Cymraeg | Cynnydd | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2021 | Cyfrifiad 2021 | Effeithiau Negyddol |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Polisi PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r iaith. Nod Polisïau PS 1, PS 5 a PS 6 yw integreiddio 'datblygu cynaliadwy' yn y broses ddatblygu, er mwyn cynnal a chreu cymunedau unigryw a chynaliadwy.<br><br>Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol o'r boblogaeth sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol<br>bob chwarter, a sail hyn yw data o arolwg. Fodd bynnag, mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth wedi gweld gostyngiad ym maint y samplau dros y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd hyn ac argaeledd ffigurau sgiliau iaith o Gyfrifiad 2021 eleni mae'r AMB (fel o'r blaen) yn canolbwyntio ar ffigurau'r Cyfrifiad yn hytrach na ffigurau o'r Arolwg blynyddol.<br><br>Ar Ynys Môn ar Ddiwrnod y Cyfrifiad yn 2021, roedd 37,413 o bobl (3 oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n cyfateb i 55.8%. Yn 2011 y ganran gyfatebol oedd 57.2% gyda 38,568 o siaradwyr Cymraeg 3 oed a hŷn yn 2011. Felly, mae'r gyfran wedi gostwng 1.4% gyda nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng 1,155. |

**Amcan - Gwarchod, hyrwyddo a gwella adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol**

| Dangosydd SA | Targed | Data Sylfaenol / Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr asedau hanesyddol sydd mewn perygl / newid yn y nifer sydd mewn perygl | Gostyngiad | 2020 / 2021 | 2020 / 2021 | Effeithiau Positif |

| Dadansoddiad. |
|---|
| Nid yw data sy'n ymwneud â nifer yr asedau hanesyddol sydd mewn perygl / newid yn y nifer sydd mewn perygl ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer ceisiadau oedd yn groes i bolisïau PS 20 ac AT 1 yn ystod y cyfnod monitro. Cymeradwywyd 45 cais cynllunio llawn mewn Ardaloedd Cadwraeth ar Ynys Môn. Mae'r rhain yn cynnwys newid defnydd hen Eglwysi, anheddau newydd, atodiadau, newid defnydd, addasiadau ac estyniadau. Ystyrir bod y caniatadau hyn yn cydymffurfio â Pholisïau PS 20 ac AT 1 a bod y polisïau hyn yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol. |

**Amcan - Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog ac amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol**

| Dangosydd SA | Targed | Data Sylfaenol / Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1. Gweithgarwch economaidd yn ôl sector. | Cynnydd | 2023 / 2024 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Effeithiau Positif |
| 2. Statws cyflogaeth preswylwyr 16 oed a hŷn | Cynnydd | 2023 / 2024 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Effeithiau Positif |
| 3. Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn ac allan o ardal yr awdurdod. | Canlyniadau cymysg mewn patrymau cymudo | 2022 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Effeithiau Positif |

| Dadansoddiad. |
|---|
| 1 & 2. Fel y gwelir yn y tabl isod, mae ystadegau'n dangos bod gweithgarwch economaidd a chyfradd cyflogaeth Ynys Môn wedi cynyddu ers yr AMB blaenorol a'i fod ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. |

**Cyfradd cyflogaeth (16 - 64 oed) fel canran**

| Ardal | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 76.5% | 75.6% | 75.4% | 70.6% | 76.6% | 74.6% | **77.7%** |
| Cymru | 73.1% | 73.6% | 72.2% | 73.6% | 73.3% | 73.5% | **73.4%** |

| Dadansoddiad. |
|---|
| 3. Mae ystadegau'n dangos bod gostyngiad wedi bod yn nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod tra bod nifer y bobl sy'n cymudo i'r awdurdod wedi aros yr un fath rhwng 2023 a 2024. (Noder: Mae'r data'n dangos cyfanswm y preswylwyr sy'n gweithio sy'n cymudo o'r ardal i weithio mewn mannau eraill. Ar lefel Cymru, mae'n dangos nifer y bobl sy'n cymudo allan o Gymru i weithio.)<br><br>Ystyrir nad oes unrhyw gais cynllunio wedi bod yn groes i'r polisïau economaidd a gynhwysir yn y Cynllun. |

**Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn ac allan o'r ardal am resymau cyflogaeth.**

| Ardal | Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2023 | Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2024 | Nifer y bobl sy'n cymudo allan i'r awdurdod 2023 | Nifer y bobl sy'n cymudo allan i'r awdurdod 2024 |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 8400 | 8,300 | 3,000 | 3,000 |
| Cymru | 81800 | 92,600 | 31,600 | 37,400 |

**Amcan - Darparu tai o ansawdd da, gan gynnwys tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol**

| **Dangosydd SA** | **Targed** | **Data Sylfaenol / Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
|---|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarperir bob blwyddyn fel canran o'r holl unedau newydd. | Cynnydd | 2021 / 2022 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Effeithiau Positif |

| **Blwyddyn** | **Unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd** | **Cyfanswm yr unedau tai a gwblhawyd** | **Unedau fforddiadwy fel canran o gyfanswm y tai a gwblhawyd** |
|---|---|---|---|
| 2017 – 2018 | 61 | 463 | 13.2% |
| 2018 – 2019 | 189 | 548 | 35.6% |
| 2019 – 2020 | 132 | 461 | 28.6% |
| 2020 – 2021 | 82 | 362 | 22.7% |
| 2021 – 2022 | 107 | 344 | 31.1% |
| 2022 – 2023 | 122 | 298 | 40.9% |
| 2023 – 2024[2] | 53 | 178 | 30.0% |
| 2024 – 2025 | 104 | 249 | 41.8% |

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| Mae gwaith monitro eleni wedi tynnu sylw at y ganran uchaf o unedau fforddiadwy a gwblhawyd o'r holl unedau tai a gwblhawyd, sef 41.8% |

[2]O 2023 ymlaen, dim ond data gan awdurdod cynllunio Ynys Môn sy'n cael ei gasglu

**Amcan - Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella tirweddau gwledig a threfweddau trefol ardal y cynllun**

| Dangosydd SA | Targed | Data Sylfaenol / Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cyfran y tirweddau o ansawdd uchel/uchel iawn a nodwyd gan LANDMAP. | Cynnydd | 2019 - 2020 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Effeithiau Positif |
| 2. Nifer / cyfran y datblygiadau newydd mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol | Gostyngiad | 2021 – 2022 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Effeithiau Positif |
| 3. Nifer / cyfran y datblygiadau newydd mewn ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn rhai eithriadol gan LANDMAP | Gostyngiad | 2021 – 2022 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Effeithiau Positif |

**Dadansoddiad.**

1) Dim newid ers yr AMB blaenorol. Dyma'r canlyniadau ar gyfer yr ardaloedd a ddiffinnir o dan LANDMAP:

- Gweledol a Synhwyraidd - roedd 51% (135 allan o 267 ardal) o ardaloedd yn cael eu hystyried yn Uchel neu Eithriadol;
- Diwylliannol - roedd 98% (374 allan o 382 ardal) o ardaloedd yn cael eu hystyried yn Uchel neu Eithriadol;
- Daearegol - roedd 62% (133 allan o 213 ardal) o ardaloedd yn cael eu hystyried yn Uchel neu Eithriadol;
- Tirweddau Hanesyddol - roedd 81% (319 allan o 392 ardal) o ardaloedd yn cael eu hystyried yn Uchel neu Eithriadol;
- Cynefinoedd Tirwedd - roedd 47% (592 allan o 934 ardal) o ardaloedd yn cael eu hystyried yn Uchel neu Eithriadol;

2) Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol fel a ganlyn:

- 2018/2019 = 540
- 2019/2020 = 219
- 2020/2021 = 222
- 2021/2022 = 340
- 2022/2023 = 209
- 2023/2024 = 75
- 2024/2025 = 78

Er bod cynnydd bychan wedi bod yn nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn yr AHNE dros y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn yn fach iawn, ac mae'r nifer yn sylweddol is nag mewn cyfnodau monitro blaenorol.

| **Dadansoddiad.** |
|---|
| 3) Nid oedd y data ar gyfer y dangosydd hwn ar gael. Parhau i fonitro mewn AMBau dilynol. |

**Amcan - Defnyddio tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hybu mecanweithiau i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff.**

| Dangosydd SA | Targed | Data Sylfaenol / Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1. % y datblygiadau ar dir sydd eisoes wedi'i ddatblygu. | Cynnydd | 2021 - 2022 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Effeithiau Positif |
| 2. % y gwastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi | Gostyngiad | 2018 – 2019 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Effeithiau Positif |
| 3. % y gwastraff trefol sy'n cael ei ailddefnyddio / ailgylchu | Cynnydd | 2020 – 2021 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Effeithiau Cymysg |

**Dadansoddiad.**

1. Mae % y datblygiad ar dir a ddatblygwyd o'r blaen fel a ganlyn:

- Ynys Môn: 2017-2018 = 13.8ha (49%);
- Ynys Môn: 2018-2019 = 4.33ha (21%);
- Ynys Môn: 2019-2020 = 52.9ha sy'n cyfateb i 82.8% o'r holl ddatblygiadau. (Roedd y ffigur hwn yn cynnwys newidiadau i drac rasio presennol, ac roedd arwynebedd y safle yn 41.4ha)
- Ynys Môn: 2020-2021 = 15.20ha (72.8%)
- Ynys Môn: 2021-2022 = 15.97ha (49.3%)
- Ynys Môn: 2022 – 2023 = 41.25ha (79.6%)
- Ynys Môn: 2023-2024 = 3.7ha (49.1%)
- Ynys Môn: 2024-2025 = 1.33ha (11.7%)

2. 2019-20 yw blwyddyn olaf y cynllun lle dyrannwyd lwfansau tirlenwi i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Felly, nid oes diweddariad ers yr AMB blaenorol. Mae % y gwastraff trefol i safleoedd tirlenwi fel a ganlyn (Ffynhonnell: StatsCymru):

- 2016-2017 = Ynys Môn (6.9%)
- 2017-2018 = Ynys Môn (0.5%)
- 2018-2019 = Ynys Môn (1%)
- 2019-2020 = Ynys Môn (2%)

Er bod Ynys Môn wedi gweld cynnydd bach yng nghanran y gwastraff a aeth i safleoedd tirlenwi rhwng 2018/2019 a 2019/2020, mae'r ffigur yn sylweddol is nag yn 2016-2017.

3. Mae % y gwastraff trefol a ailgylchwyd fel a ganlyn (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru):

- 2016-2017 = Ynys Môn (66%)
- 2017-2018 = Ynys Môn (72%)
- 2018-2019 = Ynys Môn (70%)
- 2019-2020 = Ynys Môn (68%)
- 2020-2021 = Ynys Môn (65.7%)

| Dadansoddiad. |
|---|
| • 2022-2023 = Ynys Môn (62.3%)<br>• 2023-2024 = Ynys Môn (65%) |

**Amcan - Hyrwyddo a gwella cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi**

| Dangosydd SA | Targed | Data Sylfaenol / Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1. Dull teithio i'r gwaith - % y boblogaeth weithio sy'n teithio mewn car. | Gostyngiad | Cyfrifiad 2011 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Effeithiau Positif |
| 2. Canran y datblygiadau preswyl newydd o fewn 30 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus i'r cyfleusterau | Cynnydd | 2017 / 2018 / 2019 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Niwtral |
| 3. Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar droed ac ar feic | Cynnydd | 2016 - 2017 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Niwtral / Data ddim ar gael |
| 4. % y cynnydd yn y rhwydwaith beicio | Cynnydd | Papur Pwnc Trafnidiaeth 2015 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Niwtral / Data ddim ar gael |
| 5. Cyfran y ffynonellau tanwydd LPG ar gyfer cerbydau modur | Cynnydd | 2019 ymlaen | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Niwtral / Data ddim ar gael |

| Dadansoddiad. |
|---|
| 1. Mae'r tablau isod yn cymharu'r sefyllfa ar Ynys Môn, Gwynedd a Chymru rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021 ar gyfer y gwahanol ddulliau o deithio i'r gwaith (mae'r rhain yn seiliedig ar y boblogaeth oed gweithio 16-74). Fel y gwelwyd, mae'r newid mwyaf yng nghanran y bobl sy'n gweithio gartref, +15.6% ar Ynys Môn, +20.25% yng Nghymru. O ran y nifer sy'n gyrru car neu fan i'r gwaith mae hyn wedi gostwng -9.05% ar Ynys Môn, -6.36% yng Ngwynedd a -10.91% yng Nghymru. |

| Y dull a ddefnyddir i deithio i'r gweithle | Ynys Môn % (Cyfrifiad 2011) | Ynys Môn % (Cyfrifiad 2021) | Newid % |
|---|---|---|---|
| Gweithio gartref yn bennaf | 6.85% | 22.51% | 15.66% |
| Trên dan ddaear, metro, rheilffordd ysgafn, tram | 0.07% | 0.02% | -0.05% |
| Trên | 0.71% | 0.41% | -0.30% |
| Bws, bws mini neu fws moethus | 2.67% | 1.59% | -1.08% |
| Tacsi | 0.38% | 0.32% | -0.06% |
| Beic modur, sgwter neu foped | 0.73% | 0.39% | -0.34% |
| Gyrru car neu fan | 70.40% | 61.35% | -9.05% |
| Teithiwr mewn car neu fan | 6.10% | 4.64% | -1.46% |
| Beic | 1.58% | 0.96% | -0.62% |
| Ar droed | 9.54% | 6.87% | -2.67% |
| Dull arall o deithio i'r gwaith | 0.96% | 0.74% | -0.22% |

| Y dull a ddefnyddir i deithio i'r gweithle | Cymru % (Cyfrifiad 2011) | Cymru % (Cyfrifiad 2021) | Newid % |
|---|---|---|---|
| Gweithio gartref yn bennaf | 5.36% | 25.61% | 20.25% |
| Trên dan ddaear, metro, rheilffordd ysgafn, tram | 0.09% | 0.04% | -0.05% |
| Trên | 2.01% | 0.84% | -1.17% |
| Bws, bws mini neu fws moethus | 4.61% | 2.30% | -2.31% |
| Tacsi | 0.48% | 0.56% | 0.08% |
| Beic modur, sgwter neu foped | 0.56% | 0.34% | -0.22% |
| Gyrru car neu fan | 67.37% | 56.46% | -10.91% |
| Teithiwr mewn car neu fan | 6.80% | 4.83% | -1.97% |
| Beic | 1.44% | 1.10% | -0.34% |
| Ar droed | 10.64% | 7.06% | -3.58% |
| Dull arall o deithio i'r gwaith | 0.64% | 0.86% | 0.22% |

**Dadansoddiad.**

2. 100% o ddatblygiadau preswyl newydd o fewn 30 munud.
3. Dim diweddariad yn y data ers yr AMB blaenorol.

a. Ynys Môn sydd â'r drydedd nifer isaf o ddeiliaid cardiau bws rhatach sy'n 60 oed a hŷn (75.6%).
b. Gwynedd sydd â'r pedwerydd nifer isaf (80.0%).
c. Yr ardal â'r nifer isaf yw Powys (71.5%).
d. Yr ardal â'r nifer uchaf yw Caerdydd (89.9%).

| Dadansoddiad. |
|---|
| e. Y cyfartaledd cenedlaethol yw 87.0%.<br>Felly, mae Ynys Môn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.<br><br>4. Dim diweddariad yn y data ers yr AMB blaenorol.<br>5. Dim data ar gael. |

**Amcan - Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaliadwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd**

| Dangosydd SA | Targed | Data Sylfaenol / Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1. % y datblygiadau newydd gyda systemau draenio cynaliadwy integredig | Cynnydd | AMH | Data ddim ar gael | Niwtral / Data ddim ar gael |
| 2. % y cyrff dŵr sydd â statws ecolegol da neu botensial | Cynnydd | 2018 - 2019 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Niwtral / Data ddim ar gael |
| 3. Cyfran / nifer absoliwt y datblygiad yn C1 a C2 | Gostyngiad | 2020 - 2021 | Gweler y dadansoddiad am fanylion | Effeithiau Positif |

| Dadansoddiad. |
|---|
| 1. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu gan yr Awdurdod ar hyn o bryd.<br>2. Nid oedd data wedi'i ddiweddaru o'r AMB blaenorol ar gael. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro mewn AMBau yn y dyfodol.<br>3. Nid oes gwybodaeth ar gael am ddatblygiadau ym mharth llifogydd C1. Caniatawyd 36 cais cynllunio llawn ar safleoedd a oedd yn gyfan gwbl/rhannol o fewn parth llifogydd C2. . Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer math o ddatblygiad a fyddai'n cael ei ystyried yn 'ddatblygiad agored iawn i niwed' yn unol â Ffigur 2 Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu a Pherygl o Lifogydd). Ymhellach, roedd yr holl geisiadau a leolwyd (yn rhannol/yn llwyr) o fewn parth llifogydd C2 yn cydymffurfio â'r profion a gynhwysir yn TAN 15. Cesglir fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS 5, PS6, 1 PCYFF a PCYFF 2 o'r CDLl ar y Cyd. Ystyrir felly bod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol. |